# cofnod

Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service



**Cylchlythyr Cofnod**

**Gwanwyn 2020 (2)**

## Golygyddol

Croeso i ail Gylchlythyr Cofnod, sy'n llawn digonedd o awgrymiadau ar gyfer cofnodi. Gyda chyfyngiadau Covid-19 yn eu lle, mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau 2020 wedi cael eu canslo neu eu haildrefnu, gyda chofnodi wedi'i gyfyngu i'ch cartref a llwybrau cerdded lleol. Fodd bynnag, mae llond gwlad o rywogaethau gardd i gadw llygad amdanyn nhw!

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd Cofnod ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein Cynllun Strategol cyntaf, sy'n datgan ein nodau mawr yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r ddwy ddogfen ar gael drwy Lyfrgell Cofnod.

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

**Richard Gallon**
**Intec, Ffordd y Parc**
**Parc Menai**
**Bangor LL57 4FG**

www.cofnod.org.uk

newsletter@cofnod.org.uk

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| Harris, H. | Ynys Môn, Dilyn Yn Ôl Troed Tunnicliffe | 2–4 |
| Rees, I. | Cyllell Fôr Americanaidd *Ensis leei* ym Moroedd Gogledd Cymru | 4–8 |
| Gallon, R. | Cwrs Microsgopeg Ffyngaidd Cofnod yn Amgueddfa'r Byd, Lerpwl, 1af Tachwedd 2019 | 8–10 |
| Gallon, R. | Ffocws ar Rywogaeth: *Pholcus phalangioides* Copyn Heglog | 11–12 |
| Gallon, R. | Ffocws ar Offer: Camera Olympus Tough TG-5 | 12–14 |
| Cartwright, M. | Madfallod Tywod Gogledd Cymru | 14–16 |
| Fretwell, T. | Achub ein Dolydd gyda Magnificent Meadows Cymru | 16–17 |
| May, T. | Ffocws ar Staff: Tim May (Rheolwr Systemau Gwybodaeth Cofnod) | 18 |


## Ynys Môn, Dilyn Yn Ôl Troed Tunnicliffe

**Howard Harris**

Roedd aros mewn bwthyn ar y clogwyni morol sy'n edrych dros Borth Trwyn a goleudy'r Moelrhoniaid yn lleoliad tawel ar gyfer ymweld â llecynnau difyr arfordir Gogledd Ynys Môn lle bu'r artist, Charles Tunnicliffe RA, yn braslunio adar môr. Mae'r darn yma o'r arfordir wedi'i ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE); tirwedd heddychlon ac oesol gyda bythynnod gwynion ac aneddiadau pysgota a ffermio bychain yma ac acw ar hyd y pentiroedd creigiog, y tu ôl i'r ogofâu cysgodol.

Y llecyn cyntaf i ni ymweld ag o oedd Porth Swtan, ar hyd lonydd culion a throellog rhwng y llwyni mwyar duon a'r rhostir wedi'i bori gan ferlod. Roedd y clogwyni carreg uchel yn safle nythu i'r Wylan Benddu *Chroicocephalus ridibundus* (Ffig. 1), Aderyn Drycin y Graig *Fulmaris glacialis* (Ffig. 2) a'r Frân Goesgoch *Pyrrhocorax pyrrhocorax* a'r pyllau creigiog ar y traeth yn gynefin i Gorhedydd y Graig *Anthus petrosus*.

Mae Esgair Gemlyn (Ffig. 3) yn esgair o ro mân ar dro sy'n gwahanu'r môr agored oddi wrth fôr-lyn hallt bas. Mae'r esgair yn gartref i adar magu fel y Cwtiad Torchog *Charadrius hiaticula* a Phioden y Môr *Haematopus ostralegus* sy'n nythu yng nghanol y cerrig crynion. Y môr-lyn yw'r ffocws ar gyfer golygfa fywyd gwyllt enwog Cemlyn – poblogaeth y safle o Fôr-wenoliaid dros yr haf. Mae Môr-wenoliaid Cyffredin *S. hirundo*, y Gogledd *S. paradisaea* a Phigddu *S. sandvicensis* yn nythu'n rheolaidd ar yr ynysoedd ym mhen gorllewinol y warchodfa, gan wneud Cemlyn yn safle cenedlaethol bwysig ar gyfer yr adar môr gosgeiddig, mudol yma. Mae pentir Trwyn Cemlyn gerllaw yn llecyn gwych i wylio'r môr a chadw llygad am adar môr.



**Ffigur 2.** Aderyn Drycin y Graig *Fulmaris glacialis*.
© Jen Vidal.

Roedd Amlwch, pentref pysgota bychan ar arfordir gogledd-ddwyrain Ynys Môn, yn ei anterth yn y 18fed a'r 19eg ganrif, pan fu dwysáu ar y mwyngloddio copr ar Fynydd Parys gerllaw, gan droi'r safle'n fwynglawdd copr brig mwyaf y byd. Does dim syndod bod y porthladd wedi dod yn safle allforio mawr ar gyfer copr yn fyd-eang. Heddiw, ar ôl y 'rhuthr am gopr', mae Môr-wenoliaid Cyffredin yn segura ar hyd y traethau o amgylch yr Hen Harbwr ac yn wynebu gwyntoedd cryf Môr Iwerddon. Erbyn hyn mae'r Hen Harbwr tawel yn gartref i dreftadaeth forol a diwydiannol Amlwch yn Yr Hen Lofft Hwylio – Amgueddfa Forol a Chanolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr.

Y stop nesaf oedd Traeth Lligwy, lle'r oeddem yn arfer treulio gwyliau ein plentyndod o dan awyr las ddigwmwl bob amser, heb ddiferyn o law. Byddwn yn cerdded y llwybr troed rhwng gwrychoedd llawn gwyddfid rhwng y ffermdy a'r ysgoldy Cenedlaethol; croesi caeau a mynd heibio i gerrig Mesolithig nes cyrraedd y traeth tywodlyd. Yn hapus fel y gog, byddwn yn gwylio gwylanod ac adar rhydio, yn eu plith, y Fôr-wennol Fach *Sternula albifrons* a'r Fôr-wennol Bigddu ac aderyn bywiog iawn, Pibydd y Tywod *Calidris alba,* yn ceisio dal y tonnau.

Ein stop olaf ar y siwrnai ar hyd yr A5025 a'i llwybr troellog o amgylch arfordir gogleddol a dwyreiniol Ynys Môn oedd pentref pysgota tlws Moelfre. Mae Bae Moelfre yn enwog am ei longddrylliadau; y Royal Charter yn 1859 gyda 459 o fywydau'n cael eu colli a gwerth £400k o aur ar ei bwrdd, yr Hindley yn 1959 a Llong



**Ffigur 1.** Gwylan Benddu *Chroicocephalus ridibundus*.
© Jen Vidal.

Danddwr Thetis Ei Fawrhydi yn 1939. Yn haf 1939, gadawodd Thetis Iard Cammell Lairds ym Mhenbedw ar gyfer treialon môr. Nid oedd wedi plymio'n llwyddiannus erioed ac roedd wedi'i gorlwytho bron i 100% gyda swyddogion amrywiol ac eraill. Drwy gyfuniad o ffawd, camgymeriad dynol ac oedi, collwyd y Thetis gan fynd â 99 o ddynion caeth gyda hi. Daeth i'r lan ar Draeth Bychan, Moelfre lle bu personél y Llynges yn gweithio arni ac yn symud y cyrff i gael eu claddu ym mynwent Maeshyfryd yng Nghaergybi. Fel plentyn, cafodd y drasiedi hon effaith fawr arnaf i a heddiw, wrth i mi eistedd ar y cildraeth a gwylio'r Mulfrain yn sychu eu hadenydd yn herodrol, rydw i'n adlewyrchu ar sut gallai'r cyfan fod mor wahanol pe bai'r system achub wedi gweithredu'n gyflym yn lle oedi.

Ble nesaf? Mae gan Ynys Môn gadwyn o faeau, traethau bychain a phentiroedd creigiog o



**Ffigur 3.** Esgair o ro mân Cemlyn.

amgylch ei harfordir sy'n denu artistiaid a gwylwyr adar. Yn ystod fy ymweliad nesaf â'r ynys, rwy'n gobeithio cael gweld adar môr arfordir y dwyrain – Biwmares, arfordir y de – Goleudy Llanddwyn, arfordir y de orllewin – Cors Ddyga'r RSPB (Malltraeth), arfordir y gogledd orllewin – GN Clogwyni Ynys Lawd yr RSPB ac i mewn am y tir mae GN Glwybdiroedd y Fali yr RSPB. Mae'r rhain i gyd yn aros am gael eu cofnodi mewn nodiadau maes a llyfrau braslunio.

**Ffynonellau**

Tunnicliffe, C. F. 1984. *Shorelands Summer Diary*. Clive Holloway, London.

Tunnicliffe, C. F. 1992. *Shorelands Winter Diary*. Robinson Publishing, London.

Mae ***Howard Harris*** yn naturiaethwr sy'n byw yn Lerpwl, mae'n Diwtor Cyswllt gyda'r FSC ac yn Gofnodwr Biolegol. Ei brif ddiddordebau yw Botaneg ac Adareg, gyda diddordeb arbennig mewn ecoleg gwlybdiroedd.
E-bost: harrisnt@hotmail.com

## Cyllell Fôr Americanaidd *Ensis leei* ym Moroedd Gogledd Cymru

**Ivor Rees**

Ddechrau mis Rhagfyr 2018, cafwyd hyd i lawer




**Ffigur 1.** Casgliad o gregyn bach *Ensis leei* ac ambell un hŷn ar ben haenau o gregyn yn perthyn i gregyn deulawr benthig a ddaeth i'r lan yn gynharach. Traeth Llanddona, Traeth Coch, Rhagfyr 2018.
© Ivor Rees.

iawn o gyllyll môr ar draeth Benllech, Ynys Môn, ond nid oedd yn glir oddi wrth y lluniau ffôn clyfar cychwynnol pa rywogaeth oedd y rhain. Yn ddiweddarach, pan astudiwyd y samplau'n fanylach, gwelwyd mai rhywogaeth estron oedd hon (*Ensis leei* = *E. directus*), yn tarddu o Ogledd America ac yn cael ei hadnabod yno fel Cragen Fylchog Cyllell Boced. Hefyd cafwyd hyd i gasgliadau tebyg o rywogaethau ifanc grŵp 0, a farnwyd oddi wrth eu cregyn fel rhai tua 4 oed, ym mhen Llanddona i Draeth Coch (Ffig. 1). Gyda'i gilydd, roedd y cofnodion yn awgrymu bod casgliad eang ohonynt wedi ymsefydlu oddi ar ochr ddwyreiniol Ynys Môn yn 2018. Yn rhyfeddol, roedd "Rhywogaeth Estron Ymledol" wedi byw yn gudd am sawl blwyddyn ar safle morol Natura 2000 sydd wedi'i ddynodi'n rhannol am y ffawna ar wely'r môr yno. Mae'r digwyddiad yn tynnu sylw at rinweddau prosiect "Beached!" sy'n annog pobl i roi gwybod am gasgliad mawr o greaduriaid sy'n dod i'r lan er mwyn gallu adnabod y rhywogaeth a chofnodi ei niferoedd.

Gydag *E. leei* wedi'i hychwanegu yn awr, mae pum cyllell fôr sy'n debyg yr olwg i'r genws *Ensis* i gadw llygad amdanynt ar draethau Gogledd Cymru, a thair cragen ddeuglawr hefyd gyda chregyn estynedig. I gymhlethu pethau, nid yw'r rhan fwyaf o'r canllawiau glan môr sydd ar gael yn eu disgrifio o gwbl (*Ensis* spp.), tra bo ymchwil tacsonomig sy'n cymharu





**Ffigur 2.** *Ensis leei* gyda chylchoedd twf 3+, Traeth Coch, Rhagfyr 2018.
© Ivor Rees.




**Ffigur 3.** Ymyl fewnol ôl *Ensis leei* fach, hyd y gragen 37 mm, yn dangos sylfaen siâp W llydan y sinws palial a'r graith cyhyr atynnwr ôl estynedig. Traeth Coch, Rhagfyr 2018. © Ivor Rees.

ffosilau gyda chregyn modern wedi arwain at newid rhai enwau gwyddonol ers cyhoeddi'r canllawiau. Gall dweud y gwahaniaeth rhwng yr *Ensis* spp. fod yn heriol oherwydd nid yw'n hawdd gweld y nodweddion allweddol bob amser. Cafwyd disgrifiadau manwl ac allwedd




**Ffigur 4.** Ymyl fewnol flaen *Ensis leei* yn dangos y pellter cymharol fyr rhwng pen colfachog y ligament a phen ôl y graith cyhyr atynnwr blaen.
© Ivor Rees.

gan Von Cosel (2009) ac mae gan adran Bioamrywiaeth gwefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru adran gyda disgrifiadau a ffotograffau defnyddiol o gregyn deuglawr Gogledd Ddwyrain yr Atlantig, gan gynnwys yr *Ensis* spp.

Mae gan *Ensis leei* gragen ar fymryn o dro bob amser bron, a dyma pam mai'r enw cyffredin a ddefnyddir yn America yw "Cyllell Boced" ac mae'n lletach nag unrhyw un o'r rhywogaethau brodorol (Ffig. 2). Mae'r nodweddion allweddol ar gyfer eu hadnabod y tu mewn i'r pâr o gregyn, felly mae deall cyfeiriadedd yn help. Mae'r anifeiliaid yma'n byw gyda'u pennau blaen i lawr yn y gwaddodion, gyda'r seiffonau maent yn tynnu dŵr drwyddynt i hidlo bwyd yn y pen ôl. Gall y seiffonau gilio yn sinws palial sy'n amrywio o ran siâp rhwng rhywogaethau. Mae sylfaen sinws *E. leei* ar ffurf siâp W llydan ac ychydig yn lletraws yn aml (Ffig. 3). Efallai nad yw'r nodwedd hon yn glir bob amser, felly rhaid gwirio nodweddion y pen blaen hefyd. Yn wir, efallai ei bod yn haws gweld a dehongli.

Mae'r ligament colfachog lledraidd sy'n uno'r pâr o gregyn deuglawr ger y pen blaen ac oddi tano mae craith estynedig yn marcio atodiad y cyhyr atynnwr blaen. Dim ond am yn ôl am bellter byr y tu hwnt i ben y ligament (<20% o hyd y graith) mae craith cyhyr *E. leei* yn ymestyn (Ffig. 4). Yn yr holl *Ensis* eraill yng Ngogledd Ddwyrain yr Atlantig mae craith y cyhyr atynnwr blaen yn ymestyn llawer ymhellach na'r ligament.

Mae *Ensis leei* (= *E. directus*) yn frodorol i arfordir dwyreiniol Gogledd America, o Labrador i Dde Carolina. Cawsant eu canfod i ddechrau mewn dyfroedd Ewropeaidd ym Môr y Gogledd oddi ar Aber Elbe yn yr Almaen, yn 1979 (Gollasch *et al*., 2015). Credir eu bod wedi cyrraedd Ewrop fel larfa fwy na thebyg, yn nhanc dŵr balast llong. Ar ôl eu cyflwyno, fe'u gwelwyd yn lledaenu'n fuan iawn i arfordir yr Iseldiroedd a Denmarc, ac wedyn yn ehangach o amgylch de Môr y Gogledd cyn cyrraedd dwy ochr y Môr Udd dwyreiniol. Mewn rhannau o Waddensee yn yr Iseldiroedd, adroddwyd eu bod wedi cyrraedd dwyseddau mawr iawn gan

ffurfio rhan sylweddol o fiomas benthig y tiroedd tywodlyd bas. Gwelwyd pïod môr a môr-hwyaid du yn bwydo arnynt ac roeddent yn dueddol o ddod i'r lan yn gasgliadau torfol. Cafwyd y cofnod cyntaf ar arfordir gorllewinol Prydain ym Mae Angle, Aberdaugleddau, yn 2002. Nid yw'r lleoliad hwn yn peri syndod o ystyried y traffig o loris mawr sy'n teithio i'r porthladd hwnnw. Ym Mae Lerpwl, cafwyd y cofnod cyntaf o gragen ym Mhrestatyn yn 2011, gyda chofnodion y flwyddyn ganlynol ar ochr arall y sianel ac yn afon Merswy hefyd. Ar Draeth Coch, roedd oedrannau'r cregyn a ganfuwyd yn 2018 yn argymell bod rhai wedi bod yn y rhan hon o Ogledd Cymru cyn tua 2013. Cwestiwn agored yw a ddaeth y rhain i Draeth Coch drwy ledaenu o rannau mewnol Bae Lerpwl neu drwy ddŵr balast wedi'i ryddhau yn angorfa Lynas oddi ar Draeth Coch. Byddai llifau gweddillol yn cael eu gyrru gan y llanw i'r de orllewin drwy Afon Menai yn esbonio eu hamledd yn awr ar ochr dde orllewinol Ynys Môn yn Niwbwrch ac Aberffraw. Rhaid aros i weld pa effaith gaiff y rhywogaeth estron hon ar strwythur y benthos o waddod meddal yn yr ardaloedd tywodlyd bas oddi ar arfordir Gogledd Cymru.

**Cyfeiriadau**


Gollasch, S., Kerchof, F., Craeymeersch. J., Goulletquer, P., Jensen, K., Jolmert, A. & Minchin, D. 2015. Alien Species Alert: *Ensis directus*. Current status of invasions by the marine bivalve *Ensis directus*. ICES Cooperative Research Report 323, 32pp.

Von Cosel, R. 2009. The razor shells of the eastern Atlantic, part 2. Pharidae II: the genus *Ensis* Schumacher 1817 (Bivalvia, Solenoidea). *Basteria*, **73**: 9–56.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am brosiect Beached!

**Ôl-nodyn**

Ers ysgrifennu'r nodyn uchod, mae'r *E. leei* byw cyntaf wedi'u canfod oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Codwyd dau mewn bachiad 0.1m sengl mewn gorsaf oddi ar y lan ym Mae Conwy yn ystod arolwg benthos gan CNC ym mis Mehefin 2019 (gwybodaeth gan Matthew Green). Hefyd, yn ystod haf 2019, mae'n bur debyg mai'r rhywogaeth hon oedd yn y disgrifiad gan gasglwr abwyd o gyllyll môr bach anghyfarwydd, byw ar Draeth Coch.




**Ffigur 1.** Sborau ffyngaidd i lawr microsgop.
© Richard Gallon.


Am flynyddoedd lawer, cyn ymddeol, roedd ***Ivor Rees*** yn aelod o staff Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Prifysgol Bangor. Mae ganddo brofiad eang o ffawna benthig ar wely Môr Iwerddon a'r dylanwadau eigionegol sy'n arwain at ddod â chasgliad torfol o organebau i'r lan.
E-bost: ivorerees@hotmail.com

## Cwrs Microsgopeg Ffyngaidd Cofnod yn Amgueddfa'r Byd, Lerpwl, 1af Tachwedd 2019

**Richard Gallon** (Arbenigwr Cofnodi Cofnod)



**Ffigur 2.** Saethwr sborau ar sleid microsgop.
© Richard Gallon.



**Ffigur 3.** Charles Aron yn defnyddio microsgop arddangos Ymddiriedolaeth Tanyptera i ddangos ble i samplu meinwe ar gyfer paratoadau sborau.
© Richard Gallon.


Mae bob amser yn braf iawn cynnal digwyddiad yn Amgueddfa'r Byd yn Lerpwl. Felly roedd rhaid cychwyn yn blygeiniol er mwyn codi Charles Aron ar Ynys Môn, ac roedd dargyfeiriad cyflym i gasglu Lucia Ruffino fel rhan o'r siwrnai yn werth yr ymdrech hefyd.

Aethom drwy dwnnel Merswy a dewis y lôn anghywir ar ôl cyrraedd y ddinas, ond yn y diwedd dyma gyrraedd maes parcio'r amgueddfa. Daeth Wendy Atkinson o'r Adran Fotaneg i'n cyfarfod ni a'n harwain drwodd i'r adran Entomoleg lle byddem yn cynnal y cwrs ffyngau.

Mae'n swnio'n od ein bod wedi cynnal cwrs LERC Gogledd Cymru yn Lloegr, yn rhoi sylw i ffyngau mewn adran Entomoleg! Fodd bynnag, mae'r cyfleusterau labordy yno'n rhagorol ac, yn garedig iawn, fe sicrhaodd Gary Hedges o'r *Ymddiriedolaeth Tanyptera* bod eu casgliad o ficrosgopau cyfansawdd a'u microsgop arddangos gwych ar gael i ni.

Daeth chwech o bobl eraill i'r amgueddfa i fynychu'r cwrs, gan ymuno â Lucia a minnau fel myfyrwyr ar gyfer y diwrnod. Ar ôl y briff am y larwm tân, a'r 'rheolau tŷ' fel maen nhw'n cael eu galw – mewn geiriau eraill, dweud ble mae'r toiledau a'r allanfeydd – aethom o'r Llyfrgell Entomoleg i'r Labordy.

Roedd Charles wedi dod â chasgliad diddorol o sbesimenau ffyngau i ni edrych arnynt. Dangosodd i ni sut i gymryd sampl fechan o feinwe ffyngaidd a'i gwasgu rhwng sleid microsgop a chlawr gyda dafn o ddŵr. Y tric oedd gwybod pa feinwe ffyngaidd i'w ddewis – mewn sawl achos, roedd yn ddarn o dagell, ond mewn eraill darnau o'r arwyneb uchaf. Daethom i ddeall sut i baratoi sleidiau yn fuan iawn, gan ddarganfod ei bod yn llawer gwell defnyddio darn bach iawn o feinwe, yn lle darn mawr.



**Ffigur 4.** Paratoi samplau o sborau ar gyfer microsgopeg.
© Richard Gallon.

Roedd yr amrywiaeth ym maint a siâp y sbôr yn rhyfeddol. Roedd rhai o'r rhywogaethau 'saethu sborau' yn perfformio eu dull gwasgaru o dan y microsgop hyd yn oed, yn debyg iawn i arddangosfa dân gwyllt fechan!

I ychwanegu amrywiaeth at y diwrnod, aeth Wendy Atkinson â'r grŵp o amgylch yr Adran Fotaneg, gan ddangos rhai o drysorau botanegol yr amgueddfa i ni, y llysieufa ffyngaidd a chasgliad o ddarluniau ffyngaidd.

Ar ôl dychwelyd i'r labordy, buom yn edrych ar y sbesimenau oedd gan Charles. Erbyn y diwedd, roeddem i gyd wedi gweld amrywiaeth ragorol o rywogaethau. Roedd y cwrs yn gyflwyniad ardderchog i ficrosgopeg ffyngaidd, ac yn ddifyrrach fyth oherwydd detholiad Charles o rywogaethau diddorol.



**Ffigur 5.** Ffwng tafod-y-ddaear yn datgelu ei sborau hir tebyg i werthyd.
© Richard Gallon.




## Ffocws ar Rywogaeth: *Pholcus phalangioides* Copyn Heglog

**Richard Gallon** (Arbenigwr Cofnodi Cofnod)

Ym mhob rhifyn o Gylchlythyr Cofnod, byddwn yn rhoi sylw i rywogaeth “hawdd ei hadnabod”. Y nod yw annog darllenwyr i gofnodi’r rhywogaethau hyn i helpu i fapio eu dosbarthiad yng Ngogledd Cymru.

Os nad ydych chi’n gyfarwydd â grŵp penodol o rywogaethau, gall fod yn anodd ceisio eu hadnabod. Mae pryder o hyd y gall yr anifail neu’r planhigyn rydych chi wedi’i weld fod yn un o sawl rhywogaeth debyg yr olwg! Nod yr erthygl hon yw helpu drwy ganolbwyntio ar esiamplau penodol. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at gyflwyno llawer o gofnodion newydd i Cofnod drwy gyfrwng yr ORS neu Ap LERC Cymru.


Fel cofnodwr, mae croeso cynnes i chi anfon awgrym ar gyfer rhywogaeth atom ni.

Mae ***Pholcus phalangioides*** yn bryf copyn cyffredin iawn ond mae’n cael ei dangofnodi,



**Ffigur 1.** Benyw *Pholcus phalangioides*. Saeth ar yr abdomen. © Richard Gallon.

ond eto i’w ganfod bob amser bron mewn adeiladau. Cadwch lygad amdano yng nghorneli’r nenfwd neu du ôl i gypyrddau. O darfu arno, mae’n cylchdroi’n gyflym yn ei we, gan bylu ei amlinell. Mae’r benywod yn cario sach wyau sengl yn eu ceg ac mae hon yn edrych fel bag bach iawn o farblis melyn. I fod yn siŵr eich bod wedi adnabod *P. phalangioides* yn gywir, gwnewch yn siŵr bod gan eich pryf copyn ddau ddarn ar wahân penodol (i eithrio carw’r gwellt) a bod yr abdomen yn hir (h.y. nid



**Ffigur 2.** Cofnodion *Pholcus phalangioides* yn ORS Cofnod.

siâp deigryn) wrth edrych arno o'r ochr neu uwch ben (saeth at yr abdomen yn y llun).

Mae'r rhywogaeth hon yn cael ei thangofnodi'n fawr yng Ngogledd Cymru, gydag ychydig dros 100 o gofnodion yn ardal Cofnod (Ffig. 2). Beth am gyflwyno cofnod a helpu i lenwi rhai o'r bylchau yn nosbarthiad y pryf copyn.


## Ffocws ar Offer:
### Camera Olympus Tough TG-5

**Richard Gallon** (Arbenigwr Cofnodi Cofnod)

Pan rydych chi allan yn cofnodi, mae bob amser yn syniad da mynd â chamera gyda chi. Mae'n rhoi opsiwn i chi i nid yn unig tynnu llun y rhywogaeth rydych chi'n ei chofnodi, ond hefyd tynnu lluniau o gynefinoedd ar gyfer cyfeirio atynt. Mae ffotograff gyda chofnod yn dystiolaeth ategol wych hefyd, gan helpu Is-Gofnodwyr Sirol i ddilysu eich cofnod.

Y dyddiau hyn mae gan lawer o ffonau clyfar gamerâu gwych ond, am resymau amlwg, mae'r rhain wedi'u creu i dynnu llun gwrthrychau maint pobl a gwrthrychau 'normal', gyda manylder wedi'i gynllunio i edrych yn dda ar sgrin fechan yn y llaw. Ychydig iawn ohonom fyddai eisiau mentro hongian ffôn ar gontract drud uwch ben pwll mwdlyd, neu ei ollwng ar greigiau.

Am sawl blwyddyn, roeddwn i'n arfer cario camera SLR digidol gyda mi. Ond roedd ei bwysau a'i faint yn niwsans yn aml ac fe




**Ffigur 1.** Gallu macro uchafswm yr Olympus Tough TG-5 (heb ei gwtogi) gan roi llun 20 mm o led sy'n addas ar gyfer llawer o infertebrata bach. © Richard Gallon.

ddechreuais i adael y 'fricsen' gartref yn lle mynd â hi gyda mi ar deithiau cerdded.

Dros baned o de yn y gwaith, cefais fy nghyflwyno i gamera pwyntio a saethu bychan. Roedd Susan Andrew (Gwirfoddolwr Cofnod) a Catharine Moss wedi bod yn defnyddio'r un model i dynnu lluniau mwsoglau a llysiau'r afu. Roeddent yn brysur yn disgrifio'r *Olympus Tough* oedd yn pentyrru ffocws a hefyd yn dal dŵr (i 15 m) ac yn gallu gwrthsefyll sioc (o'i ollwng i hyd at 2.1 m)!



**Ffigur 2.** Mae'r gosodiad macro rheolaidd yn dda ar gyfer infertebrata mwy symudol lle nad yw'r opsiwn pentyrru lluniau yn ymarferol mewn gwirionedd. © Richard Gallon.



**Ffigur 3.** Mae camera dal dŵr yn rhoi hyder i chi i dynnu lluniau heb ofni difetha'r camera. *Crassula helmsi* mewn pwll. © Richard Gallon.

Gan mai infertebrata rwy'n eu cofnodi'n bennaf, roeddwn i'n frwd iawn am y cyfleuster pentyrru ffotograffau. Mae tynnu lluniau infertebrata bach (macro ffotograffiaeth) yn heriol bob amser – brwydr gyson yn cyfaddawdu dyfnder y maes. Mae pentyrru ffotograffau gyda'r Olympus yn cyflawni hyn drwy dynnu sawl llun yn awtomatig (gan ffocysu ar wahanol rannau o'r gwrthrych) a'u huno yn un llun clir. Mae cael y cyfleuster hwn mewn camera pwyntio a saethu yn wych! Mae'r gosodiad Macro rheolaidd yn fwy na digonol



**Ffigur 4.** Mae gosodiadau Awto a Thirwedd yr Olympus Tough yn dda iawn hefyd. © Richard Gallon.



**Ffigur 5.** Mae'r Olympus Tough yn perfformio'n well fyth mewn golau haul llachar. © Richard Gallon.

hyd yn oed. Ar ôl gweld beth oedd y camera yma'n gallu ei wneud, fe wnes i archebu un i mi fy hun.

I fanteisio i'r eithaf ar alluoedd macro'r camera yma, fe wnes i hefyd archebu'r "Tryledwr Fflach FD-1". Nid oes darnau trydanol yn yr ychwanegiad hwn a'r cyfan mae'n ei wneud yw llywio golau'r fflach yn fwy cytbwys ar y gwrthrych, gan ei droi yn fflach cylch yn ei hanfod.

Y broblem gyntaf gefais i oedd gosod y Tryledwr Fflach ar y camera, ond dyfal donc ac fe wnes i sylweddoli bod angen tynnu'r cylch metel i ddechrau. Fel rheol rydw i'n gadael y Tryledwr Fflach ar y camera drwy'r amser, ond mae'n bur debyg y byddech chi eisiau ei dynnu wrth dynnu llun pobl dan do (pan mae cyfluniad fflach rheolaidd yn well).

Dydw i heb brofi'r camera yma o dan ddŵr eto. Ond rydw i wedi gweld y lluniau mae David Hill wedi'u tynnu mewn pyllau ac roedd ei luniau tebyg i acwariwm yn drawiadol iawn.

Rydw i wedi synnu o weld bod gan lawer o gofnodwyr bywyd gwyllt eraill y camera yma eisoes. Mae'n debyg bod llawer ohonom ni'n chwilio am yr un nodweddion mewn camera: gwydn, yn dal dŵr, hawdd ei ddefnyddio a da gyda macro.

Fel unrhyw ddarn o git, mae pwyntiau da a drwg. Os ydych chi eisiau camera i dynnu llun aderyn bychan o bell, nid dyma'r camera i chi – dydi'r nodwedd chwyddo ddim yn ddigonol. Ac nid yw mor dda â hynny mewn golau gwan chwaith, gan roi lluniau aneglur braidd. Mae'r GPS tagio lluniau mewnol yn defnyddio llawer o fatri, ond mae'n hawdd ei ddiffodd gyda switsh ar dop y camera (rydw i'n gadael fy un i wedi'i ddiffodd bob amser).

Os ydych chi'n ffotograffydd macro SLR stiwdio arbenigol, 'fyddwch chi ddim yn gwerthu eich cit fory nesaf. Nid yw manylder 12 MP yr Olympus Tough yn rhoi llawer o sgôp i chi ar gyfer cwtogi lluniau.

Er hynny, mae'n gamera gwych i gofnodwr ac wedi'i greu ar gyfer yr awyr agored, doed a ddêl.

---

Biodiversity Network North East Wales
Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Dwyrain Cymru

amphibian and reptile conservation

# Madfallod Tywod Gogledd Cymru

**Mandy Cartwright** (Swyddog Gogledd Cymru, ARC)

Madfall y tywod *(Lacerta agilis)* yw madfall brinnaf Prydain ac mae wedi cael ei hailgyflwyno'n llwyddiannus i Gymru yn dilyn diflannu'n rhanbarthol. Yn y DU, mae madfall y tywod i'w gweld mewn dau fath o gynefin: rhostir (tir isel) deheuol a systemau o dwyni arfordirol (wedi'u lleoli yn bennaf, ond nid yn unig, yn y gogledd orllewin).

Er bod y ddau gynefin yn darparu'r un adnoddau yn fras, maent yn wahanol o ran rhai



**Ffigur 1.** Madfall y tywod gwryw.

agweddau pwysig, gyda thwyni arfordirol yn fwy gwyntog, a gyda thywod mwy symudol, dwyseddau is o ysglyfaeth infertebrata a gwahaniaethau mewn gweithgarwch tymhorol rhwng poblogaethau gogleddol a deheuol. Mae'r gwahaniaethau hyn, ynghyd â'r hanes am ddosbarthiad ac ymsefydlu, wedi arwain at dair "hil" nodedig o fadfallod y tywod, Sefton, Dorset a Weald, gyda'r gwahaniaethau amlycaf i'w gweld rhwng hil ogleddol twyni Sefton a hil Dorset a Weald sydd i'w gweld ar rostir deheuol. Yng Nghymru, dim ond mewn twyni arfordirol mae madfallod y tywod i'w gweld ac mae'r madfallod y tywod brodorol yn perthyn i gyd i'r "hil twyni".

Mae madfall y tywod wedi wynebu dirywiad mawr yn ystod y ganrif ddiwethaf ac mae'n cael ei chydnabod fel blaenoriaeth cadwraeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhywogaeth yn cael gwarchodaeth gadarn gan gyfraith y DU ac Ewrop.

Mae madfall y tywod yn fadfall byrdew hyd at 20 cm o hyd. Mae gan y ddau ryw batrymau brown amrywiol i lawr y cefn gyda dwy streipen gadarn (Ffigurau 1–2). Mae gan y gwryw ymylon gwyrdd eithriadol drawiadol sy'n llachar iawn yn ystod y tymor magu ddiwedd mis Ebrill ac ym mis Mai.

Mae anifeiliaid yn rhoi'r gorau i aeafgysgu ddiwedd mis Mawrth ac yn ystod mis Ebrill. Mae madfall y tywod yn dodwy wyau ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin (Ffig. 3). Mae'r wyau'n cael eu claddu mewn tywod yn yr haul, sy'n helpu i'w cadw'n gynnes. Mae'r wyau'n deor rhwng diwedd mis Awst a mis Medi (Ffig. 4). Mae madfall y tywod yn dibynnu ar rostir dan reolaeth dda neu dwyni tywod, lle mae'n byw mewn llystyfiant aeddfed sy'n darparu cysgod da.

Ers ei sefydlu, mae ARC wedi arwain y gwaith o warchod madfall y tywod ym Mhrydain. Mae ein gwaith gyda madfall y tywod yn canolbwyntio ar bum maes penodol yn bennaf. I ddechrau, rydym yn dewis ac yn rheoli tir sydd o werth i'r rhywogaeth. Yn ail, rydym yn monitro statws madfall y tywod, drwy arolygon mewnol a gweithio gyda phartneriaid. Yn drydydd, rydym yn cynnal rhaglen ailgyflwyno, gan ddod â madfallod y tywod yn ôl yn ofalus i ardaloedd sydd wedi'u hadfer gan ddefnyddio madfallod bach sydd wedi'u magu. Yn bedwerydd, rydym yn gwneud gwaith eirioli i annog polisïau ac arferion sydd o fudd i fadfall y tywod. Yn olaf, drwy ein prosiectau rhanbarthol, rydym yn gweithredu i helpu madfallod y tywod, er enghraifft, fel rhan o'r prosiect Gems in the Dunes ar Arfordir Sefton.

Ailgyflwynwyd madfallod y tywod i ddechrau i SoDdGA Twyni Gronant a Chwninger Talacre yn 2003 gan ryddhau mwy wedyn tan 2017. Yn 2008, cafodd rhaglen fonitro strwythuredig ei sefydlu ac, yn 2011, creodd Cofnod fas data ar-lein ar gyfer y prosiect. Yn 2019, ehangodd y bas data yma i gynnwys lleoliadau eraill ar gyfer madfall y tywod yng Nghymru, sy'n cynnwys SoDdGA Harlech a GNG Cwninger Niwbwrch. Mae rheolwyr tir yn cynnwys elfennau rheoli



**Ffigur 2.** Madfall y tywod benyw.



**Ffigur 3.** Ŵy madfall y tywod gyda graddfa 5c.



**Ffigur 4.** Madfall y tywod ifanc.

cynefin pwrpasol yn awr ar gyfer madfallod y tywod, sy'n cefnogi poblogaeth ac amrywiaeth gynyddol yn y systemau o dwyni.

Mae ARC a'i bartneriaid yn cynnal cyrsiau hyfforddi blynyddol i annog a chefnogi gwirfoddolwyr i helpu gydag arolygu'r fadfall brin yma. Mae'r holl ymdrech arolygu'n cael ei gwerthfawrogi gan ei bod yn cyfrannu at dueddiadau poblogaeth rhanbarthol a chenedlaethol ac yn darparu gwybodaeth hanfodol am sut gallwn ni helpu madfallod y tywod.

Am gyfleoedd gwirfoddoli eraill, cysylltwch â:
Liam.blazey@denbigshire.gov.uk
Sarah.slater@flintshire.gov.uk

***Mandy Cartwright*** yw Swyddog Gogledd Cymru ar gyfer ARC (Amphibian and Reptile Conservation).
Mandy.cartwright@arc-trust

## Achub ein Dolydd gyda *Magnificent Meadows Cymru*

**Tamsin Fretwell**

Rai blynyddoedd yn ôl, sylweddolodd Plantlife Cymru bod problem ddirfawr gyda dolydd yng Nghymru – roeddem yn colli ein dolydd a'r ffawna cysylltiedig yn hynod gyflym ac felly cafwyd cynllun i geisio atal y golled drasig yma. Sefydlwyd prosiect *Magnificent Meadows Cymru* Plantlife yr haf diwethaf, i geisio gwyrdroi'r dirywiad yma drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu graddfa a dosbarthiad dolydd a glaswelltiroedd llawn rhywogaethau ledled Cymru.
- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o ddolydd a glaswelltiroedd Cymru a'u hymdeimlad o ofal ohonynt.
- Cynyddu gwybodaeth a sgiliau rheolwyr tir, perchnogion tir, cymunedau a gwirfoddolwyr.
- Treialu rhaglen o weithgareddau lles mewn dolydd a glaswelltiroedd cymunedol.

Mae'r prosiect yn gwneud llawer o waith cyffrous ledled Cymru, ond yn y diweddariad hwn byddwn yn canolbwyntio ar beth sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru.

Mae ein gwaith gydag ysgolion wedi dechrau eisoes! Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag ysgol yn Llandudno yn datblygu dôl fechan a fydd yn cael ei defnyddio fel safle hyfforddi. Bydd athrawon o ysgolion lleol yn cael gwahoddiad i ddiwrnod hyfforddi i weld sut cafodd y ddôl fechan ei chreu a dysgu am ffyrdd cyffrous a newydd o gael plant i ymwneud â glaswelltiroedd (Ffig. 1). Byddwn yn chwilio am ysgolion eraill i weithio gyda hwy yn y



**Ffigur 1.** Gall dolydd greu llawer o ddiddordeb cyhoeddus. © Aisling May.



**Ffigur 2.** Ceffylau'n pori tir dôl ger Bangor. © Richard Gallon.

dyfodol, felly os ydych chi'n gwybod am ysgol sydd â diddordeb, cofiwch gysylltu.

Os ydych chi'n berchennog tir, efallai bod gennych chi ddiddordeb mewn ymuno neu helpu i sefydlu grŵp dolydd. Mae grwpiau dolydd wedi profi'n ffordd ragorol iawn o helpu perchnogion tir sy'n awyddus i ddatblygu dôl ond heb wybodaeth na gallu. Mae grwpiau dolydd yn rhannu gwybodaeth, profiad, adnoddau dynol a pheiriannau a da byw weithiau, ac felly'n helpu perchnogion tir i ddatblygu dolydd llawn rhywogaethau (Ffig. 2). Yng Ngogledd Cymru, mae dau grŵp dolydd ffyniannus yn bodoli ar hyn o bryd – un yn ardal Gwynedd/Conwy ac un ar Benrhyn Llŷn. Nod y prosiect yw cau'r bylchau drwy sefydlu grwpiau yng ngogledd ddwyrain Cymru ac ar Ynys Môn.

Nod y prosiect hefyd yw sefydlu 30 o ddolydd cymunedol ledled Cymru. Efallai bod dolydd cymunedol ar dir cyhoeddus neu gallent fod ar dir sy'n eiddo i bobl nad ydynt yn poeni am ddefnydd cyhoeddus achlysurol o'u tir. Mae dolydd cymunedol yn darparu safleoedd i'r cyhoedd fwynhau'r profiad rhyfeddol o ymwneud â datblygu dôl llawn rhywogaethau, drwy ddigwyddiadau ar y safle efallai neu drwy gymryd rhan mewn rheolaeth ymarferol ar ddôl. Gallai'r safleoedd fod yn dir amaethyddol ar hyn o bryd, glaswelltir dymunol, llwyni, neu'n ddôl eisoes sydd angen help llaw i fod mewn cyflwr gwell. Ar hyn o bryd, mae gennym sawl safle wedi'u clustnodi ond rydym yn chwilio am fwy, felly cofiwch gysylltu os ydych chi'n gwybod am unrhyw safleoedd addas posib – rydym yn fodlon ystyried unrhyw faint a chyflwr!

Rydym yn gweld bod agwedd lles y prosiect yma'n cael croeso brwd gan weithwyr iechyd proffesiynol; mae'n amlwg bod dyhead am y math yma o brosiect. Ar hyn o bryd rydym yn cysylltu â meddygfeydd ac Ysbyty Gwynedd i weld sut gall y prosiect helpu staff a chleifion i godi allan i'w dolydd lleol i fwynhau manteision clir rhyngweithio â byd natur. Gwyliwch y gofod yma am ddatblygiadau pellach!

Yn 2019, cynhaliwyd tri chwrs hyfforddi am ffyngau'r glaswelltir gennym, gyda'r nod o hyfforddi gwirfoddolwyr i allu arolygu glaswelltiroedd. Yn 2020, bydd y prosiect yn hyfforddi pobl mewn sgiliau botanegol perthnasol i ddolydd, sgiliau adnabod infertebrata, sgiliau rheoli dolydd, a mwy.

Os yw'r uchod o ddiddordeb i chi, cysylltwch â fi: Tamsin.Fretwell@plantlife.org.uk

Mae ***Tamsin Fretwell*** yn Swyddog Allgymorth Dolydd Gwych gyda Plantlife Cymru.

## Ffocws ar Staff: Tim May (Rheolwr Systemau Gwybodaeth Cofnod)

Fe ddechreuais i weithio i Cofnod ar ddechrau 2006 heb lawer o brofiad o raglennu, ond dros y blynyddoedd rydw i wedi datblygu fy sgiliau ac wedi dod yn rhan yn raddol o fyd datblygu meddalwedd amgylcheddol. Ochr yn ochr â rheoli systemau TG a gweinyddion y swyddfa, yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer ein gwefannau a'n basau data, rydw i'n treulio'r rhan fwyaf o fy amser yn datblygu meddalwedd unigryw Cofnod, gan gynnwys ein system reoli, 'Orca', sy'n cael ei defnyddio gan sawl LERC arall ledled y DU nawr. Rydw i hefyd yn darparu cefnogaeth ar gyfer echdynnu data anodd i fod ar ffurfiau mwy safonol, gan ysgrifennu meddalwedd bwrpasol yn aml, macros Excel a fformiwlâu i ddatrys problemau.



Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio ar newid y System Gofnodi Ar-lein, a fydd yn cadw llawer o'r swyddogaethau mae pobl yn gyfarwydd â hwy a hefyd ei gwneud yn fwy modern ac yn gyflymach, ac ychwanegu nodweddion newydd a fydd yn ei gwneud yn fwy defnyddiol fyth.

Y tu allan i Cofnod, mae gen i ddiddordeb mawr yn yr awyr agored, yn enwedig cerdded pellter hir (sy'n digwydd yn llai aml erbyn hyn wedi dyfodiad dau o blant) ac, ar hyn o bryd, gallwch ddod o hyd i mi'n ailadeiladu fy hen Land Rover, sydd wedi bod yn aros yn amyneddgar am sylw yn yr ysgubor am ddeng mlynedd nes i mi ddod o hyd i rywfaint o amser sbâr.

## Symposiwm Cofnodwyr LERC Cymru 2021

#WalesRecord21

Dydd Sadwrn 24 Ebrill 2021; 9:30–16:00

CAT, Machynlleth

Bydd y digwyddiad yma'n gyfle i bawb ddysgu am dechnegau casglu ac adnabod, hen a newydd, sy'n cael eu defnyddio gan gofnodwyr biolegol yng Nghymru, a gwerth cofnodion biolegol i anghenion tystiolaeth cyfredol.

Bydd y digwyddiad yn apelio at gofnodwyr biolegol, myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol mewn sefydliadau sy'n gweithio ym maes cadwraeth yng Nghymru.

Bydd sesiwn y prynhawn yn cynnwys cyfres o weithdai dosbarth a maes a hefyd sesiwn trafod ar yr un pryd, yn edrych ar ffyrdd o annog cofnodwyr newydd a chefnogi cofnodion biolegol yn y dyfodol.

Mae trip maes cofnodi dewisol i GNG Ynyslas ar gael ar gyfer y diwrnod canlynol (dydd Sul 25ain Ebrill; 10:00–16:00). Mae croeso i bawb ddod am y diwrnod cyfan neu ran ohono.



## Galw am Wirfoddolwyr

**Aisling May** (Rheolwraig Data Cofnod)

Mae Cofnod yn dibynnu llawer iawn ar gymorth gwirfoddolwyr i wneud data papur yn symudol (neu yn wir y cofnodion yn yr adroddiadau neu'r dogfennau eraill nad oes modd eu mewnbynnu i'n bas data).

Os oes gennych chi amser i'w sbario, yn ystod misoedd yr Hydref/Gaeaf efallai pan mae bod y tu allan yn llai apelgar a llai o rywogaethau i'w cofnodi, cofiwch gysylltu am sgwrs i weld a fydd hyn yn addas i chi. Mae'n bur debyg y byddwch yn nodi cofnodion gan ddefnyddio ORS Cofnod, felly does dim rhaid bod yn feistr cyfrifiadurol. Efallai y byddwch yn gallu gwneud hyn o'ch cartref hyd yn oed. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gennych chi wybodaeth sylfaenol am o leiaf un grŵp o rywogaethau, a pharodrwydd i wneud gwaith sy'n gallu bod yn gymharol ailadroddus mewn ffordd gywir a chyson, gan wybod eich bod yn helpu i wneud gwahaniaeth i gadwraeth yng Ngogledd Cymru.

## Cofnodwyr Sirol

Ydych chi'n gwybod pwy yw eich Cofnodwr Sirol ar gyfer mamaliaid, adar neu löynnod byw er enghraifft? Mae gan wefan Cofnod gyfleuster chwilio lle gallwch wirio hyn yn https://www.cofnod.org.uk/Recording (Cliciwch ar 'Dod o Hyd i Arbenigwr Lleol). Mae unrhyw gofnodion rydych chi'n eu cyflwyno gan ddefnyddio System Cofnodi Ar-lein (ORS) Cofnod neu sy'n cael eu cyflwyno i ni mewn taenlen ar gael i'r Cofnodwr Sirol perthnasol drwy'r ORS.

Mae gan y Cofnodwr Sirol lawer o dasgau, ac mae'n rhan yn aml o Gynllun Cofnodi arbenigol neu Gymdeithas sy'n gweithio ledled y DU, ond, o ran Cofnod, mae'n archwilio ansawdd data hanfodol yn rheolaidd. Gan weithio'n wirfoddol, mae'r unigolion yma'n rhoi llawer o amser ac ymdrech i wirio cofnodion unigol a'u dilysu fel rhai addas i'w defnyddio yn ein bas data. Rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw am wneud y gwaith pwysig iawn yma, ac yn diolch i bawb sy'n parhau i ymrwymo eu hegni a'u brwdfrydedd i hyn, yn ogystal â'r rhai sydd wedi ei wneud am gyfnod o amser ac sydd wedi gorfod trosglwyddo'r cyfrifoldeb ymlaen i eraill.

## Cylchlythyr Cofnod

Mae Cylchlythyr Cofnod yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn (Gwanwyn a Hydref) ac mae'n lle i gofnodwyr a phobl sy'n frwdfrydig am fywyd gwyllt gyhoeddi'r canlynol:

- Tynnu sylw at rywogaethau neu grwpiau o rywogaethau y gall pobl eraill helpu i'w cofnodi. Gallai hyn gael ei ddefnyddio i helpu gyda chofnodi dosbarthiad rhywogaethau sy'n newydd i Ogledd Cymru (fel Gwenynen yr Eiddew), neu helpu i lenwi bylchau cofnodi ledled Gogledd Cymru.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i grwpiau cofnodi lleol a'u digwyddiadau.
- Rhoi gwybod am ddarganfod rhywogaethau diddorol, fel crynodeb blynyddol o gofnodion cyffrous/arwyddocaol efallai.
- Trip maes, adroddiadau safle neu gyrsiau adnabod, yn manylu ar ddigwyddiad wnaethoch chi ei fynychu neu ei drefnu.
- Adolygu offer. Rhannu gydag eraill eich profiad uniongyrchol o offer cofnodi, teclynnau neu ddillad awyr agored hyd yn oed.
- Unrhyw fater arall sy'n berthnasol i Gofnodion Biolegol yng Ngogledd Cymru.
- Hefyd bydd Cofnod yn cynnwys erthyglau perthnasol i ddatblygiadau yn ein LERC.

### Cyfarwyddyd i awduron

Paratowch eich erthyglau gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol os gwelwch yn dda:

- Cyflwyno eich testun yn y Gymraeg neu yn Saesneg fel dogfen Word, gan restru unrhyw gapsiynau neu gyfeiriadau ar ddiwedd eich erthygl.
- Osgoi defnyddio unrhyw fformatio diangen, fel 'bocsys testun', troednodiadau, cefndiroedd lliw neu fformatio anarferol ar baragraffau, oherwydd byddai'n rhaid i'r Golygydd ddad-wneud y rhain i gyd cyn cysodi.
- Mae'n well cyflwyno tablau, yn enwedig rhai mawr, fel taenlenni Excel ar wahân, yn hytrach na'u creu mewn dogfen Word.
- Anfon lluniau fel ffeiliau jpeg ar wahân (wedi'u labelu gyda rhif priodol y llun). Yn ddelfrydol dylai manylder y lluniau fod yn 300dpi o leiaf (gyda lled o ryw 12 cm), ond os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, anfonwch nhw yn eu maint gwreiddiol.
- Dylai enwau gwyddonol ar rywogaethau fod mewn teip italig gan roi prif lythyren i enw'r genws (e.e. *Rana temporaria*). Dylid rhoi prif lythyren i enw teulu, ond ni ddylai fod mewn teip italig (e.e. Ranidae) oni bai ei fod yn fersiwn wedi'i Gymreigio fel ranid. Ni ddylai enwau cyffredin fod mewn teip italig.
- Dylai unrhyw gyfeiriadau sy'n rhan o destun yr erthygl ddilyn y fformatau canlynol: (Jones, 2019) neu (Williams *et al*., 2018) (peidiwch â defnyddio cyfeiriadau rhifol).

Jones, A. B. 2019. Teitl y papur. *Teitl y cyfnodolyn*, **10**: 1–2.
Williams, A. B., Jones, C. ac Ellis, P. 2018. *Teitl y llyfr*. Cyhoeddwr, Dinas.

- Gellir anfon erthyglau ar e-bost at y Golygydd. Gellir anfon ffeiliau mawr (>10Mb) gan ddefnyddio Dropbox, WeTransfer neu wefannau rhannu ffeiliau tebyg.
- Y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno erthyglau yw Gwanwyn (1 Chwefror) a Hydref (1 Hydref).

## Digwyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau 2020 wedi cael eu canslo neu eu gohirio am y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn gobeithio aildrefnu llawer o'r rhain yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn neu yn 2021. Ewch i wefan Cofnod i weld unrhyw ddatblygiadau yn ystod y misoedd sydd i ddod.



## Archebion Digwyddiadau




» Mwy o wybodaeth «

» Ffurflen gais «

### Cyflwynwch eich cofnodion!

Mae sawl ffordd i chi gyflwyno cofnodion i Cofnod:

1. System Gofnodi Ar-lein (ORS) Cofnod
2. Ap LERC Cymru
3. Anfon taenlen ar e-bost

Os yw eich cofnodion ar iRecord neu gyda Chynllun Cofnodi Cenedlaethol, byddant yn dod i ni hefyd – cofiwch ofyn i ni os ydych eisiau i ni wirio ond ni ddylech orfod eu cofnodi ddwywaith!

Aderyn

Bas Data Gwybodaeth am Fioamrywiaeth a Chofnodi CCALI Cymru

### Dyddiad cau'r erthygl

Gwanwyn: 1 Chwefror
Hydref: 1 Hydref

Anfonwch erthyglau/cyflwyniadau at y Golygydd erbyn y dyddiadau sydd wedi'u nodi uchod.

newsletter@cofnod.org.uk